



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Canllaw technegol i weithredu'r Ddeddf
yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu
(2021 i 2022)

Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), staff addysgu ysgolion ac UCDau, cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY) a swyddogion arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar. Mae'n bosibl y bydd y canllaw hwn hefyd o ddiddordeb i feithrinfeydd annibynnol, ysgolion annibynnol, sefydliadau addysg bellach a swyddogion arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA).

Trosolwg

Mae'r canllaw yn nodi'r trefniadau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Y Ddeddf ADY). Mae'n nodi'r camau gweithredu y mae rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion eu cymryd wrth symud grwpiau o blant o'r system AAA i'r system ADY.

Camau i'w cymryd

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r gofynion a osodir ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion gan y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: GweithreduADY@llyw.cymru



[@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)



[Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru

Dogfennau cysylltiedig

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Plant nad ydynt yn symud i'r system ADY yn y flwyddyn gyntaf o weithredu	8
3. Plant sydd newydd eu dynodi fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY	9
4. Plant a gedwir yn gaeth	10
5. Trefniadau ar gyfer plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol neu UCD ac sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy	12
6. Termau a ddefnyddir	29

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r canllaw hwn ar gyfer awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), staff addysgu ysgolion ac UCDau, cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY) a swyddogion arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar (swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar). Gall y canllaw hwn hefyd fod o ddiddordeb i feithrinfeydd annibynnol, ysgolion annibynnol, sefydliadau addysg bellach (SABau), a swyddogion arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA).
- 1.2 Mae'r canllaw yn nodi'r trefniadau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Y Ddeddf ADY). Mae'n nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau eu cymryd o ran penderfynu a oes gan blant ADY a, lle bo angen, llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol (CDUau).
- 1.3 Mae'r canllaw yn ymdrin â symud i ffwrdd oddi wrth y datganiadau anghenion addysgol arbennig (AAA) presennol a'r prosesau cysylltiedig a nodir yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 a'r trefniadau a nodir yng '[Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru](#)' mewn perthynas â phlant sy'n derbyn darpariaeth drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy.

Deddfwriaeth berthnasol

- 1.4 Nod [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#) (y Ddeddf ADY) yw creu:
 - fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu iau gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac i gefnogi pobl ifanc ag ADY sydd yn yr ysgol, mewn UCD neu mewn addysg bellach (AB)
 - proses gydweithredol ac integredig o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol
 - system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau

Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a rheoliadau

- 1.5 Mae'r [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol](#) (y Cod ADY) yn gosod gofynion pellach ar ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol ac mae'n cynnwys canllawiau ar eu swyddogaethau o dan y Ddeddf ADY.
- 1.6 Yn ogystal â'r Ddeddf ADY a'r Cod ADY, mae'r [rheoliadau](#) canlynol yn berthnasol:
 - Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021
 - Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
 - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021
 - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003
 - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014

Gorchymynion cychwyn

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021

- 1.7 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021¹ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 2) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10 sydd, o 1 Medi 2021, newydd eu hadnabod fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY (gweler paragraffau 6.42 i 6.43 i gael gwybodaeth am rai sydd newydd eu hadnabod fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY).
- 1.8 Yn ogystal, mae Gorchymyn Cychwyn 2 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol sy'n cael eu cadw'n gaeth ar neu ar ôl 1 Medi 2021 (gweler paragraff 6.33 am ddiffiniad o gadw'n gaeth).
- 1.9 Mae Gorchymyn Cychwyn 2 hefyd yn cychwyn darpariaethau sy'n ymwneud â Thribiwnlys Addysg Cymru.

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021

- 1.10 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021² (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 5) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD hyd at a chan gynnwys Blwyddyn 10, sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sy'n dod o fewn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol ar 1 Ionawr 2022: Meithrin Blynyddoedd 1 neu 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 10³.
- 1.11 Bydd plant sy'n perthyn i un o'r blynyddoedd gorfodol ar 1 Ionawr 2022 yn symud i'r system ADY yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022.
- 1.12 Mae'r gorchymyn hefyd yn ymdrin â'r blynyddoedd gorfodol a fydd yn trosglwyddo i'r system ADY newydd yn ystod y flwyddyn ysgol 2022 i 2023 a 2023 i 2024⁴.
- 1.13 Nid yw Gorchymyn Cychwyn 5 yn cynnwys y rhai sydd ag achosion ar y gweill (gweler paragraffau 6.52 i 6.56 am wybodaeth am achosion ar y gweill) ar 1 Ionawr

¹ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 2\) 2021 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Diwygiadau i Orchymynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4\) 2021.](#)

² [Gorchymyn Cychwyn 5](#)

³ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 9.

⁴ Gorchymyn Cychwyn 5, erthyglau 10 ac 11.

2022, er enghraifft, y rhai sy'n cael asesiad statudol neu sydd wedi gofyn am un o dan Ddeddf Addysg 1996⁵.

- 1.14 Mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn gosod gofynion ar ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol.

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021

- 1.15 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021⁶ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 6) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at a chan gynnwys Blwyddyn 10 sydd, ar 1 Medi 2021, yn cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sydd:

- wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad lle mae un o'r lleoliadau hynny yn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru; neu
- wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru ac yn derbyn gofal yng Nghymru gan awdurdod lleol yng Nghymru⁷

- 1.16 Yn yr un modd â Gorchymyn Cychwyn 5, mae gorchymyn 6 yn gwneud darpariaeth i blant a ddisgrifir ym mharagraff 1.15 symud i'r system ADY newydd drwy flynyddoedd gorfodol. Bydd y rhai sy'n perthyn i un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol ar 1 Ionawr 2022 yn symud i'r system ADY yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf blwyddyn ysgol 2021 i 2022: Meithrin Blynyddoedd 1 neu 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 10⁸.

- 1.17 Mae'r gorchymyn hefyd yn ymdrin â gweddill y plant a ddisgrifir ym mharagraff 1.15 a'r blynyddoedd gorfodol y byddant yn trosglwyddo i'r system ADY newydd ym mlynyddoedd ysgol 2022 i 2023 a 2023 i 2024⁹.

- 1.18 Nid yw Gorchymyn Cychwyn 6 yn cynnwys y rhai sydd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022, er enghraifft, y rhai sy'n cael asesiad statudol neu wedi gofyn am un o dan Ddeddf Addysg 1996¹⁰.

- 1.19 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol.

⁵ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 2.

⁶ [Gorchymyn Cychwyn 6](#)

⁷ Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 2.

⁸ Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 9.

⁹ Gorchymyn Cychwyn 6, erthyglau 10 ac 11.

¹⁰ Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 2.

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 7) 2021

1.20 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 7) 2021¹¹ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 7) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10 sydd:

- ar 1 Medi 2021, ag AAA wedi'u nodi neu a oedd mewn achos ar y gweill ac nad oeddent, ar 1 Ionawr 2022, ag AAA wedi'u nodi mwyach neu nad oeddent mewn achos ar y gweill mwyach. Mae Gorchymyn Cychwyn 7 yn trin y plant hyn fel rhai sydd newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY (gweler paragraffau 6.42 i 6.43 am wybodaeth am newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY).

Dull gweithredu

1.21 Bydd y system ADY a nodir yn y Ddeddf ADY yn cael ei gweithredu'n llawn dros flynyddoedd ysgol 2021 i 2022, 2022 i 2023 a 2023 i 2024. Mae'r dull gweithredu a nodir yn y canllaw hwn wedi'i lywio gan farn rhanddeiliaid a ymatebodd i'r [ymgyngoriad cyhoeddus ar sut y dylid gweithredu'r Ddeddf ADY](#). Canfu'r ymgynghoriad fod yna gefnogaeth gref i orfodi dull graddol o weithredu'r system ADY. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno mai amserlenni cenedlaethol ar gyfer trosglwyddo grwpiau penodol o blant i'r system ADY fyddai'r dull mwyaf hylaw a chyson. Bydd y dull gweithredu yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu hefyd yn cael ei ddilyniannu.

Gweithredu o 1 Medi 2021

1.22 Ar 1 Medi 2021, bydd y system ADY yn dechrau ar gyfer pob plentyn hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10 y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY, neu sydd newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, ar neu ar ôl 1 Medi 2021 (gweler paragraff 6.42 am ddiffiniad o newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY), ni waeth sut y caiff eu haddysg ei darparu. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir, UCD, meithrinfa annibynnol, ysgol annibynnol neu SAB neu blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

1.23 Yn ogystal, bydd y system ADY yn dechrau ar 1 Medi 2021 ar gyfer unrhyw blentyn o oedran ysgol gorfodol a gedwir yn gaeth ar 1 Medi 2021 a bydd hefyd yn dechrau ar gyfer plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n cael ei gadw'n gaeth ar ôl 1 Medi 2021 o'r dyddiad y mae'r plentyn yn dechrau cael ei gadw'n gaeth.

Gweithredu o 1 Ionawr 2022

1.24 Ar 1 Ionawr 2022, bydd y system ADY yn dechrau ar gyfer plant hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10 sy'n cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD

¹¹ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 7\) 2021](#)

ac sydd ym Mlynnyddoedd Meithrin 1 neu 2, neu Flwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 10. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad.

- 1.25 Bydd hefyd yn bosibl i blant sy'n dod o dan Orchmynion Cychwyn 5 a 6, neu eu rhieni, ofyn am iddynt gael eu symud i'r system ADY y tu allan i'w grŵp blwyddyn (gweler paragraffau 6.64 i 6.67 am wybodaeth am ofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 6.68 i 6.70 am wybodaeth ynghylch gofyn am hysbysiad ADY).

Plant a phobl ifanc nad ydynt yn symud i'r system ADY yn y flwyddyn gyntaf o weithredu

- 1.26 Yn gyffredinol, ni fydd y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc yn symud i'r system ADY yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu ond byddant yn symud yn ystod yr ail neu'r drydedd flwyddyn o weithredu:

- plant sy'n cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy nad ydynt ym Mlynnyddoedd Meithrin 1 neu 2, neu Flwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 10
- plant ag AAA nad ydynt yn mynychu lleoliad a gynhelir
- pobl ifanc sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol
- plant sydd ym Mlwyddyn 11, ac eithrio lle cânt eu cadw'n gaeth
- plant sydd â datganiad AAA
- plant sydd ag achos ar y gweill (gweler paragraffau 6.52 i 6.56 am wybodaeth am achosion sydd ar y gweill)

Gweithredu'r system AAA wrth weithredu'r system newydd

- 1.27 Yn ystod y gweithredu, bydd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â'r system AAA. Bydd y system honno'n dirwyn i ben yn raddol yn ystod y cyfnod gweithredu. Hyd nes y bydd plentyn yn symud i'r system ADY, mae'r ddeddfwriaeth AAA¹² yn parhau mewn grym, sy'n golygu bod yn rhaid i ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol barhau i roi'r ddarpariaeth addysgol arbennig a nodir mewn cynlluniau neu ddatganiadau gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy.
- 1.28 Ni ellir rhoi datganiad i blant sy'n cael eu cynnwys yn y gorchmynion cychwyn¹³. Nod hyn yw atal rhoi achosion ar y gweill ar gyfer plant yn ystod y cyfnod gweithredu. Fodd bynnag, gall plant, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir iddynt symud i'r system ADY (gweler paragraffau 6.64 i 6.67 am wybodaeth ynghylch gofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 6.68 i 6.70 am wybodaeth ynghylch gofyn am hysbysiad ADY).

¹² Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996

¹³ Bydd plant nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gorchmynion cychwyn yn aros ar y system AAA, felly byddant yn gallu gofyn am asesiad o dan Ddeddf Addysg 1996 neu asesiad adran 140 o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

- 1.29 Rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion ac UC Dau barhau i gydymffurfio â Deddf Addysg 1996 a rheoliadau a wnaed oddi tani tra bydd y Ddeddf a'r rheoliadau yn dal i fod yn gymwys i'r plentyn, a chyda'r trefniadau a nodir yng ['Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru'](#).

Trefniadau pontio a'r Cod ADY

- 1.30 Nid yw'r trefniadau trosiannol sydd wedi'u rhoi ar waith i weithredu'r system ADY yn union yr un fath â'r trefniadau a nodir yn y Ddeddf ADY a'r Cod ADY. Mae'r gwahaniaethau'n cynnwys, er enghraifft, yr amserlenni ar gyfer penderfynu bod gan blentyn ADY a'r amserlenni ar gyfer paratoi CDU.

2. Plant nad ydynt yn symud i'r system ADY yn y flwyddyn gyntaf o weithredu

- 2.1 Nid yw rhai grwpiau o blant a phobl ifanc wedi'u cynnwys yn y gorchmynion cychwyn. Mae'r rhain yn cynnwys plant neu bobl ifanc sydd, ar 1 Ionawr 2022:
- yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol
 - ym Mlwyddyn 11, ac eithrio lle cânt eu cadw'n gaeth
 - â datganiad (ac eithrio lle caiff plentyn ei gadw'n gaeth) neu mewn achos ar y gweill¹⁴, sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn AHY a phlant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion annibynnol neu feithrinfeydd nas cynhelir neu sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn ddewisol.
- 2.2 Mae'r system AAA yn parhau i fod yn gymwys yn llawn i blant nad ydynt yn dod o dan Orchmynion Cychwyn 2, 5, 6 a 7. Mae hyn yn golygu, yn wahanol i blant sy'n dod o dan y gorchmynion cychwyn hyn, y gall plant a phobl ifanc nad ydynt yn dod o dan y gorchmynion cychwyn hyn ofyn am asesiad AAA. Yn ogystal, mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn parhau i fod yn gymwys yn llawn i blant ym Mlwyddyn 11 (nad ydynt yn cael eu cadw'n gaeth) ac i bobl ifanc.
- 2.3 Bydd plant nad ydynt yn dod o dan Orchmynion Cychwyn 2, 5, 6 a 7 yn symud i'r system ADY naill ai yn yr ail flwyddyn neu'r drydedd flwyddyn o weithredu. Bydd trefniadau ar gyfer symud disgyblion nad ydynt wedi'u cynnwys ym mlwyddyn gyntaf y gweithredu yn cael eu nodi mewn gorchmynion cychwyn dilynol ac mewn canllawiau gweithredu yn y dyfodol.

¹⁴ Gweler paragraffau 6.52 i 6.56 i gael rhagor o wybodaeth am achosion ar y gweill.

3. Plant sydd newydd eu dynodi fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY

- 3.1 Bydd y system ADY yn berthnasol i blant hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10, sydd newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY, o 1 Medi 2021 (gweler paragraffau 6.42 i 6.43 am ddiffiniad o newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY).
- 3.2 Pan fo gan blentyn, hyd at a chan gynnwys Blwyddyn 10, AAA ar 1 Medi 2021, ac wedyn ni ystyrir bod ganddo AAA mwyach ar 1 Ionawr 2022, ac yn ddiweddarach daw i'r amlwg fod ganddo ADY, mae'r plentyn wedi'i gynnwys yn y diffiniad o newydd ei ddynodi fel un sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf fod ganddo ADY.
- 3.3 Mae plant hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10 sydd newydd eu dynodi fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY, yn cynnwys pob plentyn, waeth sut y caiff ei addysg ei ddarparu. Mae hyn yn cynnwys plant:
- sydd wedi'u cofrestru mewn lleoliadau a gynhelir, gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir
 - sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion annibynnol, gan gynnwys meithrinfeydd annibynnol
 - sydd wedi'u hymrestru mewn SAB
 - sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref
 - sy'n derbyn AHY
- 3.4 O fis Medi 2021, pan gaiff ei ddwyn i sylw ysgol, UCD neu awdurdod lleol, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gallai plentyn (nad oedd ganddo AAA wedi'u hadnabod ar 1 Medi 2021, neu a oedd ag AAA ar 1 Medi ond nad oedd ganddo AAA mwyach ar 1 Ionawr 2022) fod ag ADY, bydd y Ddeddf ADY a'r Cod yn gymwys. Felly, dylai ysgolion, UCDAu ac awdurdodau lleol gyfeirio at y Cod ADY am arweiniad ar y dyletswyddau sy'n ymwneud â phlant sydd newydd eu dynodi fel rhai ag ADY.
- 3.5 Mae adrannau canlynol y canllaw hwn yn nodi'r trefniadau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer plant sy'n symud o'r system AAA i'r system ADY yn y flwyddyn gyntaf o'i gweithredu. Nid yw'r adrannau'n rhoi arweiniad cynhwysfawr ar y system ADY. Yn hytrach, mae'r canllaw yn nodi'r trefniadau pontio i gefnogi gweithredu. Dylid darllen y canllaw hwn ochr yn ochr â'r Cod ADY. Lle bo'n briodol, cyfeirir y darlennydd at yr adrannau perthnasol yn y Cod ADY.

4. Plant a gedwir yn gaeth

- 4.1 Mae Gorchymyn Cychwyn 2 yn dwyn i rym adrannau 40 i 44 o'r Ddeddf ADY ar gyfer pob plentyn a gedwir yn gaeth¹⁵ sydd o oedran ysgol gorfodol.
- 4.2 Mae Gorchymyn Cychwyn 2 yn cynnwys pob plentyn a gedwir yn gaeth, gan gynnwys y rhai sydd â datganiad. Mae plant a gedwir yn gaeth sydd â datganiadau wedi'u cynnwys oherwydd unwaith y bydd plentyn wedi'i gadw'n gaeth, nid yw'r awdurdod lleol yn gyfrifol mwyach am y plentyn ac nid oes dyletswydd arno i gynnal y datganiad¹⁶.
- 4.3 Os tynnir sylw'r awdurdod lleol cartref at y ffaith y gallai plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth fod ag ADY, rhaid iddo benderfynu a oes gan y plentyn ADY. Os oes ganddo ADY, efallai y bydd angen llunio CDU. Ceir canllawiau pellach i awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant a gedwir yn gaeth ym mhennod 19 o'r Cod ADY. Oherwydd adran 312A o Ddeddf Addysg 1996, mae plentyn a gedwir yn gaeth mewn llety ieuencid perthnasol ac y mae ei gyfnod o gael ei gadw'n gaeth yn cynnwys 1 Medi 2021 neu 1 Ionawr 2022 i'w drin fel pe na bai'n ymwneud â'r system AAA. Felly, bydd y system ADY newydd yn berthnasol iddo o 1 Medi 2021 neu 1 Ionawr 2022 (p'un bynnag sy'n gymwys).
- 4.4 Pan fydd plentyn y mae'r gyfraith ADY yn gymwys mewn perthynas ag ef¹⁷ yn cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth, bydd y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn parhau i fod yn gymwys i'r plentyn.
- 4.5 Os bydd plentyn a oedd yn ymwneud â'r fframwaith statudol AAA cyn cael ei gadw'n gaeth yn dechrau cael ei gadw'n gaeth, yna, yn y man cadw, nid oes dim yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn gymwys i'r plentyn (gweler adran 312A). Bydd y ddeddfwriaeth ADY ar gadw'n gaeth yn berthnasol i'r plentyn hwnnw. Gan fod gan y plentyn AAA, mae'n debygol iawn y bydd gan y plentyn ADY. Mewn achos o'r fath, gellir llunio CDU o dan adran 40 o'r Ddeddf ADY neu caiff ei gadw o dan adran 42 o'r Ddeddf ADY. Pan gaiff y plentyn ei ryddhau o'r cyfnod o gadw'n gaeth, os oes ganddo CDU neu os oes un yn cael ei baratoi ar ei gyfer, bydd y system ADY yn parhau i fod yn berthnasol i'r plentyn a bydd y system AAA yn peidio â bod yn gymwys. Pan fydd plentyn sydd ym Mlwyddyn 11 yn gadael ei gyfnod o gadw'n gaeth gyda CDU yn cael ei lunio o dan adran 40 o'r Ddeddf ADY neu'n cael ei gadw o dan adran 42 o'r Ddeddf ADY, bydd y plentyn yn aros ar y system ADY. Pan fydd plentyn sydd ym Mlwyddyn 11 yn gadael ei gyfnod o gadw'n gaeth heb CDU, neu os nad oes CDU yn cael ei baratoi, bydd yr hen gyfraith (y system AAA a darpariaethau Deddf Dysgu a Sgiliau 2000) yn parhau i fod yn gymwys i'r plentyn.
- 4.6 Os nad oes ganddo CDU, neu os nad oes un yn cael ei baratoi ar ei gyfer, bydd ei symud i'r gyfraith newydd yn dibynnu ar ei amgylchiadau cyn iddo gael ei gadw'n gaeth. Er enghraifft, os oedd ganddo ddarpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, bydd yn symud i'r gyfraith newydd yn

¹⁵ Mae i plant a gedwir yn gaeth yr ystyr a roddir iddo gan adran 39 o'r Ddeddf ADY. Hynny yw, plant sy'n destun gorchymyn cadw ac sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuencid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr.

¹⁶ Deddf Addysg 1996, adran 562.

¹⁷ Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 2. Hynny yw, y rhai nad ydynt yn ymwneud â'r fframwaith statudol AAA.

unol â Gorchmynion Cychwyn 5 a 6 a ddisgrifir yn y canllaw hwn. Os oedd ganddo ddatganiad, bydd yn cael ei drin yn yr un modd â phlant eraill o'r un oed sydd â datganiadau.

- 4.7 Mae [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(Cymru\) 2021](#) yn dwyn i rym Ddeddf ADY ar gyfer plant a gedwir yn gaeth yn yr ysbyty ar, neu ar ôl, 1 Medi 2021 o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (yn ystod achosion troseddol neu ar gyfer dedfrydu)¹⁸ (gweler pennod 19 o'r Cod ADY, yn arbennig o dudalen 215 ymlaen).
- 4.8 Pan fydd plentyn yn cael ei ryddhau o'i gyfnod o gadw'n gaeth o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, mae deddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn parhau i fod yn gymwys i'r plentyn y mae CDU yn cael ei lunio neu ei gynnal mewn perthynas ag ef o dan adran 14 o'r Ddeddf o ganlyniad i reoliad 23 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021¹⁹.

¹⁸ Rheoliad 23 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

¹⁹ Gorchymyn Cychwyn 2, erthygl 7 fel y'i hamnewidiwyd gan O.S. 2021/938 (W. 214) (C. 49) erthygl 2(5).

5. Trefniadau ar gyfer plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol neu UCD ac sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy

- 5.1 O fis Ionawr 2022, bydd CDUau yn dechrau disodli cynlluniau sy'n cefnogi plant ag AAA ar hyn o bryd. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu (2021 i 2022), bydd plant hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10 sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol neu UCD ac sy'n cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sydd yn: Meithrin Blynyddoedd 1 neu 2, neu Flwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 10, yn symud i'r system ADY.
- 5.2 Nid yw plant sydd ag achos ar y gweill wedi'u cynnwys yn y flwyddyn gyntaf o weithredu (gweler paragraffau 6.52 i 6.56 am wybodaeth am achosion sydd ar y gweill).
- 5.3 Yn ogystal, nid yw plant ym Mlwyddyn 11 wedi'u cynnwys yn y flwyddyn gyntaf o weithredu, ac eithrio lle cânt eu cadw'n gaeth.
- 5.4 Yn ystod y gweithredu, bydd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â'r system AAA. Bydd hon yn dirwyn i ben yn raddol yn ystod y cyfnod gweithredu. Hyd nes y bydd plentyn yn symud i'r system ADY, mae'r ddeddfwriaeth AAA²⁰ yn parhau mewn grym, sy'n golygu bod yn rhaid i ysgolion, UCDAu ac awdurdodau lleol barhau i roi'r ddarpariaeth addysgol arbennig a nodir mewn cynlluniau gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy os yw plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir neu UCD.
- 5.5 Ni ellir rhoi datganiad i blant sy'n cael eu cynnwys yn y gorchmynion cychwyn. Nod hyn yw atal rhoi achosion ar y gweill ar gyfer plant (gweler paragraffau 6.52 i 6.56 am wybodaeth am achosion ar y gweill) yn ystod y cyfnod gweithredu. Fodd bynnag, gall plant, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir iddynt symud i'r system ADY (gweler paragraffau 6.64 i 6.67 am wybodaeth ynghylch gofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 6.68 i 6.70 am wybodaeth ynghylch gofyn am hysbysiad ADY).
- 5.6 Mae'r adran hon yn cynnwys 2 is-adran. Mae Is-adran A yn rhoi canllawiau i ysgolion ac UCDAu ar symud plant o'r system AAA i'r system ADY, fel y nodir yng Ngorchymyn Cychwyn 5. Mae Is-adran B yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol ar symud plant sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad neu sy'n derbyn gofal, o'r system AAA i'r system ADY, fel y nodir yng Ngorchymyn Cychwyn 6.

²⁰ Deddf Addysg 1996, Rhan 4.

A. Plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol neu UCD ac nad ydynt yn blentyn sy'n derbyn gofal nac wedi eu cofrestru mewn mwy nag un lleoliad

Cyflwyniad

- 5.7 Mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at a chan gynnwys Blwyddyn 10 sydd, ar 1 Ionawr 2022, â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD: Meithrin Blynyddoedd 1 neu 2, neu Flwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Blwyddyn 10.
- 5.8 Mae Gorchymyn Cychwyn 5 hefyd yn ymdrin â'r blynyddoedd gorfodol a fydd yn trosglwyddo i'r system ADY yn ystod y blynyddoedd ysgol 2022 i 2023 a 2023 i 2024²¹. Y rhain yw:
- yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, a Blwyddyn 1, Blwyddyn 5, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10.
 - yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ac unrhyw ddisgyblion eraill ag AAA ar 1 Ionawr 2022 na symudodd i'r system ADY yn ystod y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn o'i gweithredu.
- 5.9 Nid yw Gorchymyn Cychwyn 5 yn cynnwys y rhai sydd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022. Er enghraifft, plant sy'n cael asesiad statudol neu blant sy'n disgwyl asesiad yn dilyn cais a wnaed am un o dan Ddeddf Addysg 1996 (gweler paragraffau 6.52 i 6.56 am ddiffiniad o achosion ar y gweill). Nid yw ychwaith yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad lle mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y plentyn.
- 5.10 Yn ogystal, nid yw Gorchymyn Cychwyn 5 yn cynnwys plant sydd ym Mlwyddyn 11.

Rhoi gwybodaeth i blant a rhieni

- 5.11 Mae'n bwysig cyfathrebu â rhieni yn ystod y cyfnod gweithredu. Yn ystod tymor yr hydref ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022, dylai ysgolion ac UCDAu anfon gwybodaeth at blant sy'n cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, a'u rhieni, sy'n:
1. esbonio'r system ADY
 2. nodi'r flwyddyn ysgol y bydd y blynyddoedd gorfodol yn symud o'r system AAA i'r system ADY
 3. nodi'r broses ar gyfer symud o'r system AAA i'r system ADY
 4. esbonio hawl y plentyn neu'r rhiant i ofyn am hysbysiad
 5. darparu gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chynghor i bobl am ADY a'r system ADY²².

²¹ Gorchymyn Cychwyn 5, erthyglau 10 ac 11.

²² Mae'r Cod ADY, pennod 1, tudalen 4, yn rhoi gwybodaeth ynghylch plant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt.

- 5.12 Mae [dogfen ar wahân y gall ysgolion ac UC Dau ei hanfon at rieni](#) wedi'i chyhoeddi sy'n darparu gwybodaeth i rieni sy'n cwmpasu pwyntiau 1 i 4 uchod.
- 5.13 Yn ogystal, dylid anfon gwybodaeth benodol at blant sy'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sydd mewn blwyddyn orfodol yn ystod blwyddyn ysgol 2021 i 2022, a'u rhieni, sy'n:
- datgan y tymor y disgwylir i'r plentyn symud i'r system ADY – hynny yw, y tymor y mae'r ysgol yn disgwyl neu'n bwriadu rhoi'r hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU a beth mae'r hysbysiadau'n ei olygu
 - esbonio hawl y plentyn neu'r rhiant i ofyn am hysbysiad CDU
 - nodi beth sy'n digwydd ar ôl i hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU gael ei roi
 - darparu gwybodaeth am yr hyn y gall rhieni ei wneud os nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad a wnaed gan yr ysgol neu'r UCD a nodir yn yr hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU
- 5.14 Bydd y plant a ddisgrifir ym mharagraff 5.7 yn symud o'r system AAA i'r system ADY yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022. Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, rhaid i ysgolion ac UC Dau roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plant hyn, a'u rhieni, ar ryw adeg yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022²³. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r broses ar gyfer symud plant o'r system AAA i'r system ADY.

Y broses ar gyfer symud plant o'r system AAA i'r system ADY

Penderfynu a oes gan blentyn ADY a rhoi hysbysiad

- 5.15 Cyn cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, rhaid i ysgolion ac UC Dau benderfynu a oes gan blant sydd yn y blynyddoedd gorfodol, ac sy'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ADY (gweler pennod 20 o'r Cod ADY – 'Adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol').
- 5.16 Mae'n debygol y bydd gan blant sy'n cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 ADY.
- 5.17 Os yw plentyn a oedd yn cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 ac wedyn yn peidio â chael darpariaeth addysgol arbennig mwyach, mae'n dal i gael ei gynnwys yng Ngorchymyn Cychwyn 5 (oherwydd bod gan y plentyn AAA ar 1 Ionawr 2022). O ganlyniad, rhaid i'r ysgol neu'r UCD benderfynu a oes gan y plentyn ADY.
- 5.18 Ar ôl penderfynu a oes gan blentyn AAA ai peidio, rhaid i'r ysgol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn a'i rieni.
- 5.19 Os nad yw ysgol neu UCD wedi rhoi hysbysiad CDU, neu hysbysiad dim CDU, i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY), a'i riant, yn ystod tymhorau gwanwyn a haf y flwyddyn ysgol 2021 i 2022, bydd y

²³ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 9. Nid yw'r sefyllfa o ran rhoi hysbysiadau i blant a/neu rieni nad oes ganddynt alluedd yn y Cod ADY yn gymwys i'r hysbysiadau a roddir o dan Orchymyn Cychwyn 5.

plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2022. Ar y pwynt hwn, mae'r ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn.

Hysbysiadau CDU

5.20 Rhoddir hysbysiad CDU lle mae'r ysgol neu'r UCD wedi penderfynu bod gan blentyn ADY. Mae'r hysbysiad yn golygu bod y penderfyniad yn cael ei drin fel pe bai wedi ei wneud ar ddyddiad yr hysbysiad. Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r gyfraith newydd yn gymwys ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys i'r plentyn. Rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi CDU o fewn 35 diwrnod ysgol i ddyddiad yr hysbysiad²⁴ ac eithrio os yw'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- (a) mae amgylchiadau eithriadol
- (b) mae'r ysgol neu'r UCD o'r farn bod gan y plentyn ADY:
 - (i) a all alw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) na fyddai'n rhesymol i'r ysgol neu'r UCD ei sicrhau
 - (ii) na all bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol, neu
 - (iii) na all benderfynu'n ddigonol ar DDdY ar eu cyfer²⁵
- (c) mae'r ysgol neu'r UCD yn gofyn i awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad o dan adran 36(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014²⁶
- (d) mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc²⁷

5.21 Mae'r cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY) yn gyfrifol am sicrhau bod ADY disgybl yn cael eu hadnabod a bod cofnodion yn cael eu cadw o benderfyniadau am ADY. Dylai CADY fod yn rhan o sicrhau bod pob disgybl sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5 yn cael hysbysiad yn ystod y flwyddyn ysgol berthnasol. Gall CADY ddewis ymgymryd â'r dasg hon ei hun neu drefnu i'r dasg gael ei chyflawni gan eraill.

5.22 Os bydd ysgolion neu UCDAu wedi rhoi CDUAu cyn 1 Ionawr 2022, er enghraifft, fel rhan o gynllun peilot, nid oes gan y CDUAu hynny unrhyw rym cyfreithiol. Wrth symud plentyn sydd â CDU a baratowyd cyn mis Ionawr 2022, o'r system AAA i'r system ADY, bydd angen rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (fel y bo'n briodol) i'r plentyn a'i riant.

5.23 Unwaith y bydd y system ADY yn berthnasol i blentyn, a bod y plentyn hwnnw wedyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu'n dod yn

²⁴ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 13.

²⁵ Deddf ADY, adran 12(2)(a).

²⁶ Deddf ADY, adran 12(2)(c).

²⁷ Deddf ADY, adran 12(2)(d).

gofrestredig neu'n ymrestredig mewn lleoliad arall, rhaid i'r ysgol neu'r UCD gyfeirio achos y plentyn at yr awdurdod lleol²⁸.

5.24 Gall ysgol neu UCD atgyfeirio achos plentyn i'r awdurdod lleol pan fo hysbysiad CDU wedi'i roi a bod anghenion y plentyn yn golygu bod yr ysgol o'r farn bod gan y plentyn ADY:

- a allai alw am DDdY na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau
- na all bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol
- na all benderfynu'n ddigonol ar DDdY ar eu cyfer²⁹

Hysbysiadau dim CDU

5.25 Rhoddir hysbysiad dim CDU os nad yw'r ysgol neu'r UCD o'r farn bod gan y plentyn ADY. Rhoddir yr hysbysiad i blentyn a riant plentyn. Mae'r hysbysiad yn cadarnhau bod yr ysgol neu'r UCD wedi penderfynu nad oes gan y plentyn ADY at ddibenion pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf ADY. Mae'r system ADY yn gymwys o ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys.

5.26 Pan fo plentyn, neu ei riant, yn anfodlon â'r penderfyniad a wnaed gan yr ysgol neu'r UCD ynghylch a oes gan y plentyn ADY, disgwylir y byddai'r anfodlonrwydd hwn fel arfer yn cael ei ddatrys yn uniongyrchol gyda'r ysgol neu'r UCD neu drwy droi at drefniadau anghytuno'r awdurdod lleol. Fel arall, neu yn ogystal, os na chaiff yr anghytundeb ei ddatrys, gall plant a'u rhieni ofyn i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y penderfyniad a wnaed gan yr ysgol neu'r UCD (ceir rhagor o wybodaeth am ailystyriaethau awdurdodau lleol yn y Cod ADY, pennod 26, tudalen 287).

Hysbysiadau ADY

5.27 Mae Gorchmynion Cychwyn 5 a 6 yn darparu i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY. Yn wahanol i hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, nid yw'r hysbysiad ADY yn cynnwys yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY.

5.28 Effaith yr hysbysiad ADY yw bod y system ADY yn gymwys ar ddyddiad yr hysbysiad a bod y system AAA yn peidio â bod yn gymwys ar y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, mae'r dyletswyddau y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY, yn gymwys o'r dyddiad hwnnw.

5.29 Mae gan yr hysbysiad ADY 2 swyddogaeth.

- (1) Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi awdurdodau lleol i symud plant o'r system AAA i'r system ADY ar unrhyw adeg. Mae'r ddarpariaeth yn rhoi'r pŵer i

²⁸ Ceir rhagor o wybodaeth am atgyfeiriadau o ysgol a gynhelir i awdurdod lleol, lle mae'r plentyn wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, yn y Cod ADY, pennod 12, tudalen 101; ac ym mhennod 14, tudalennau 122 i 123, lle mae plentyn yn derbyn gofal.

²⁹ Deddf ADY, adran 12(2)(a).

awdurdodau lleol symud unrhyw blentyn sy'n dod o dan y gorchymyn³⁰ (p'un a yw'n parhau i gael ei gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ai peidio) i'r system ADY ar unrhyw adeg.

Ni ddisgwylir y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r pŵer hwn yn aml. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir ei arfer (oni bai bod y riant yn gofyn am roi'r hysbysiad ADY). Yn hytrach, gellid defnyddio'r pŵer lle, er enghraifft, mae anghenion plentyn wedi cynyddu y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol arbennig y gellir ei darparu mewn ysgol brif ffrwd ac ni all yr ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol gasglu bod y plentyn, neu riant y plentyn, wedi gofyn am hysbysiad CDU. Heb y pŵer i roi hysbysiad ADY, ni fyddai'r awdurdod lleol yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch a oedd gan y plentyn ADY a, lle bo angen, llunio CDU. Yn ogystal, nid yw'n bosibl i ysgol neu UCD ofyn i awdurdod lleol gynnal asesiad statudol neu gyhoeddi datganiad ar gyfer plentyn sy'n dod o dan Orchmynion Cychwyn 5 neu 6. Felly, ni fyddai'n bosibl i'r awdurdod lleol leoli'r plentyn mewn ysgol arbennig gan fod yr hen gyfraith yn mynnu y dylai plentyn sy'n mynychu ysgol arbennig fod â datganiad.

Mae Gorchmynion Cychwyn 5 a 6 yn atal plentyn rhag bod mewn achos ar y gweill. Felly, ni fyddai'r awdurdod lleol yn gallu cynnal asesiad o dan Ddeddf Addysg 1996. Mae rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol symud plentyn i'r system ADY yn golygu y byddai awdurdod lleol yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY a, lle bo angen, llunio CDU.

Gall ysgol a gynhelir ofyn i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY.

- (2) Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi plentyn a oedd ag AAA ar 1 Ionawr 2022 ac nad yw bellach yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir ac nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY, neu riant y plentyn hwnnw, i ofyn i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY. Pan fo plentyn neu ei riant yn gofyn i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ADY, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY o fewn 10 diwrnod gwaith i'r cais.

Gellid defnyddio'r ddarpariaeth hon lle, er enghraifft, mae plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir ar ddiwedd Blwyddyn 6 ac nad yw'n ymuno ag ysgol arall a gynhelir ar ddechrau Blwyddyn 7 oherwydd, er enghraifft, ei fod yn dod yn ddisgybl a addysgir yn y cartref yn ddewisol neu'n mynychu ysgol annibynnol.

Pan fo'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir ar ddiwedd Blwyddyn 6 ac yn ymuno ag ysgol a gynhelir neu UCD ar ddechrau Blwyddyn 7, gall y plentyn neu ei riant ofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU.

³⁰Hynny yw, plant sydd ag AAA ar 1 Ionawr 2022 drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy (nid datganiad nac yn ymwneud â'r broses datganiad AAA – mewn achos ar y gweill) ac sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD.

Llunio CDU

- 5.30 Fel y nodwyd uchod, dyddiad yr hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU yw'r dyddiad y mae'r gyfraith newydd yn gymwys ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys i'r plentyn. Gan fod gan yr ysgol neu'r UCD hyd at 35 diwrnod ysgol i roi'r CDU o ddyddiad yr hysbysiad CDU, bydd cyfnod o amser pan na fydd darpariaeth a wneir drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy yn gymwys ac nad yw'r ddarpariaeth o dan y system ADY wedi'i chytuno eto drwy CDU. Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i ysgolion ac UCDAu gymryd camau rhesymol i gyflwyno darpariaeth i gefnogi'r plentyn³¹ (am ganllawiau ar y ddyletswydd hon, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 98 i 100).
- 5.31 Wrth lunio'r CDU, rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i'r plentyn er mwyn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am baratoi CDU, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 97 i 98).

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd blwyddyn orfodol

- 5.32 Pan na fydd ysgol neu UCD wedi darparu hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY) a'i riant, erbyn 30 Awst 2022, mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl o fewn blwyddyn orfodol yn symud i'r system ADY o fewn y flwyddyn ysgol ('darpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn' yn y canllaw hwn)³².
- 5.33 Os nad yw plentyn a ddisgrifir ym mharagraff 5.7 wedi symud i'r system ADY erbyn 30 Awst 2022, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2022. Mae hyn yn golygu y bydd yr hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys ar 31 Awst 2022 a bydd y gyfraith newydd yn gymwys ar y dyddiad hwnnw. Mae'r dyletswyddau y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY, yn gymwys o 31 Awst 2022.
- 5.34 Mae hyn yn golygu, o'r dyddiad y caiff ei ddwyn i sylw'r ysgol neu'r UCD, neu y mae'n ymddangos fel arall i'r ysgol neu'r UCD y gallai fod gan y plentyn ADY, bydd gan yr ysgol neu'r UCD 35 diwrnod ysgol i wneud penderfyniad, ac os penderfynir bod gan y plentyn ADY, llunio a rhoi CDU. (Gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 94 i 96 am ganllawiau ynghylch dyletswydd ysgol i benderfynu a oes gan blentyn ADY.
- 5.35 Os oedd y plentyn yn derbyn gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy cyn symud yn awtomatig i'r system ADY, yna byddai'n ymddangos i'r ysgol neu'r UCD bod gan y plentyn ADY a rhaid i'r ysgol neu'r UCD wneud penderfyniad o dan adran 11 o'r Ddeddf ADY.
- 5.36 Os nad yw'r plentyn yn derbyn darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy mwyach cyn symud yn awtomatig i'r system

³¹ Mae adran 47 o'r Ddeddf ADY yn gosod dyletswydd ar ysgolion i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ADY os oes gan blentyn ADY ond nad yw CDU yn cael ei gynnal.

³² Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 15.

ADY, mae'r ddyletswydd i benderfynu o dan adran 11 yn gymwys unwaith y caiff ei ddwyn i sylw'r ysgol neu'r UCD, neu os yw'n ymddangos fel arall, y gallai fod gan y plentyn ADY.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU (neu hysbysiad dim CDU)

- 5.37 Mae gan blant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5, neu eu rhieni, yr hawl i wneud cais, ar unrhyw adeg, i'w hysgol neu eu UCD roi hysbysiad CDU³³.
- 5.38 Gellir gwneud y cais naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.
- 5.39 Rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod i gael y cais. Fel yr uchod, os yw'r ysgol neu'r UCD o'r farn bod gan y plentyn ADY ac yn rhoi hysbysiad CDU, rhaid i'r ysgol neu'r UCD lunio CDU o fewn 35 diwrnod ysgol i ddyddiad yr hysbysiad³⁴, oni bai bod yna eithriadau neu amgylchiadau eithriadol.
- 5.40 Mae'r CADY yn gyfrifol am sicrhau bod ADY plentyn yn cael eu hadnabod a bod cofnodion yn cael eu cadw o benderfyniadau am ADY a CDUau³⁵. Mae hyn yn cynnwys y dyddiad y gwneir cais a'r dyddiad y gwneir y penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU. Gall CADY ddewis ymgymryd â'r dasg hon ei hun neu drefnu i'r dasg gael ei chyflawni gan eraill.
- 5.41 Mae'r hawl i ofyn am hysbysiad CDU yn galluogi'r plant hynny sy'n anfodlon â'r ddarpariaeth addysgol arbennig a gyflwynir drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy i symud i'r system ADY yn gynharach na'r bwriad ac i elwa ar yr hawliau a ddarperir gan y Ddeddf ADY.

Osgoi achosion ar y gweill

- 5.42 O 1 Ionawr 2022, ni fydd modd rhoi achos ar y gweill ar gyfer plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5. Hyd nes y caiff y plentyn ei symud i'r gyfraith newydd, mae'r ddeddfwriaeth AAA (Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996) yn parhau mewn grym mewn perthynas â'r plentyn a bydd darpariaeth addysgol arbennig yn parhau i gael ei darparu.
- 5.43 Ni ellir rhoi datganiad i blant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5³⁶. Nod hyn yw atal rhoi achosion ar y gweill ar gyfer plant yn ystod y cyfnod gweithredu. Fodd bynnag, gall plant, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir iddynt symud i'r system ADY (gweler paragraffau 6.64 i 6.67 am wybodaeth ynghylch gofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 6.68 i 6.70 am wybodaeth ynghylch gofyn am hysbysiad ADY).

³³ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 12.

³⁴ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 12.

³⁵ Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, rheoliad 29 a'r Cod ADY, pennod 8, tudalen 72 ymlaen.

³⁶ Bydd plant nad ydynt yn dod o dan y gorchymynion cychwyn yn aros ar y system AAA ac felly byddant yn gallu gofyn am asesiad o dan Ddeddf Addysg 1996 neu asesiad adran 140 o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Newid mewn amgylchiadau

- 5.44 Bydd plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5 nad ydynt eisoes wedi'u symud i'r system ADY yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY lle mae eu hamgylchiadau wedi newid yn un o'r ffyrdd canlynol:
- wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Ionawr 2022 ac, ar ryw adeg ar ôl 1 Ionawr 2022, daeth yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyrwr ymrestredig mewn sefydliad arall hefyd (hynny yw, wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano
 - wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Ionawr 2022 ac, ar ryw adeg ar ôl 1 Ionawr 2022, daeth yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru; neu
 - wedi peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu'r UCD lle'r oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ar 1 Ionawr 2022, ac eithrio pan fo'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig oherwydd ei fod yn pontio'n arferol neu oherwydd cau ysgol/UCD.
- 5.45 Pan fo plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu'r UCD lle'r oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ar 1 Ionawr 2022, at ddibenion pontio arferol o un ysgol neu UCD i'r llall – hynny yw, o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 neu o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 – mae'n cael ei eithrio rhag symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY.
- 5.46 Yn ogystal, pan fo plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu'r UCD lle'r oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ar 1 Ionawr 2022 oherwydd bod ei ysgol neu ei UCD yn cau, ni fydd y plentyn yn cael ei symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY.
- 5.47 Mae hyn yn golygu y bydd plant sy'n cael eu tynnu o gofrestr eu hysgol neu eu UCD oherwydd cyfnod pontio arferol neu gau ysgol/UCD, a symud i ysgol a gynhelir neu UCD arall, yn symud i'r system ADY yn ystod eu blwyddyn orfodol.
- 5.48 Mae pontio arferol yn digwydd pan fydd plentyn, sydd yn y flwyddyn olaf y mae'r ysgol yn gyffredinol yn darparu addysg, yn gadael yr ysgol honno ar ddiwedd y flwyddyn honno (er enghraifft, Blwyddyn 6 mewn ysgol gynradd, Blwyddyn 2 mewn ysgol fabanod).
- 5.49 Er enghraifft, mae plentyn sydd ym Mlwyddyn 6 ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022 i fod i symud i'r system ADY yn 2023 i 2024 pan fydd y plentyn ym Mlwyddyn 8. Mae'r pwynt lle mae'r plentyn yn symud i'r system ADY yn dibynnu ar a oes gan y plentyn ddarpariaeth addysgol arbennig o hyd ar 1 Medi 2023.
- Pan fo plentyn sydd ym Mlwyddyn 6 ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022 yn symud i ysgol a gynhelir neu UCD arall i ddechrau Blwyddyn 7 yn 2022 i 2023 ac yn parhau i fod yn cael ddarpariaeth addysgol arbennig ar 1 Medi 2023 (pan fydd yn dechrau Blwyddyn 8), rhaid i'r ysgol a gynhelir neu'r UCD naill ai roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn yn ystod

blwyddyn ysgol 2023 i 2024³⁷. Mae'r system ADY yn gymwys o ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r system AAA yn peidio â bod yn gymwys.

- Pan fo plentyn sydd ym Mlwyddyn 6 ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022 yn symud i ysgol a gynhelir neu UCD arall i ddechrau Blwyddyn 7 yn 2022 i 2023 nad yw'n cael darpariaeth addysgol arbennig mwyach ar 1 Medi 2023 (pan fydd yn dechrau Blwyddyn 8), bydd yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY ar 31 Awst 2024.

5.50 Pan fydd plentyn ym Mlwyddyn 6 ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022 yn gadael yr ysgol gynradd ac nad yw'n ymuno ag ysgol uwchradd a gynhelir neu UCD ar ddechrau Blwyddyn 7, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2024³⁸.

5.51 Fodd bynnag, gall plentyn a ddisgrifir ym mharagraff 5.49 ofyn am symud i'r system ADY yn gynharach na'r bwriad (gweler paragraffau 6.64 i 6.67 i gael gwybodaeth am ofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 6.68 i 6.70 i gael gwybodaeth am ofyn am hysbysiad ADY).

5.52 Dylai ysgolion ac UCDAu fod yn ymwybodol bod y ddarpariaeth newid mewn amgylchiadau yng Ngorchymyn Cychwyn 6 yn wahanol i Orchymyn Cychwyn 5. Nid yw'r ddarpariaeth newid mewn amgylchiadau yng Ngorchymyn Cychwyn 6 yn cael ei effeithio gan bontio arferol na chau ysgolion/UCDAu. Mae hyn yn golygu, os yw plentyn, er enghraifft, wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac, ar ddiwedd Blwyddyn 6, yn cael ei gofrestru mewn un ysgol a gynhelir neu UCD yn unig, y bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY³⁹. Pan fydd hyn yn codi, dylai'r awdurdod lleol hysbysu'r ysgol neu'r UCD bod y plentyn wedi peidio â bod yn gofrestredig mewn mwy nag un lleoliad ac, felly, mae'r plentyn wedi symud yn awtomatig i'r gyfraith newydd a bod y dyletswyddau a osodir ar yr ysgol neu'r UCD yn gymwys.

5.53 Mae'r gwahanol ddulliau o ymdrin â newid mewn amgylchiadau yn golygu, os bu newid ysgol neu UCD o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 neu o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, bydd angen i ysgolion nodi a oedd eu disgyblion sydd ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 7 yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023, ar 1 Ionawr 2022:

- a. yn derbyn gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad neu'n derbyn gofal; neu
- b. yn derbyn gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac wedi'u cofrestru mewn un ysgol a gynhelir neu UCD yn unig.

5.54 Bydd angen i ysgolion ac UCDAu nodi a yw plant yn perthyn i grŵp (a) neu (b) fel eu bod yn gwybod a yw plant wedi symud yn awtomatig i'r system ADY. Bydd plant sy'n perthyn i (a) yn symud yn awtomatig i'r system ADY pan fyddant yn pontio o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 ac o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Felly, nid oes angen i'r ysgol neu'r UCD sy'n derbyn roi hysbysiad i symud y plentyn i'r system ADY.

³⁷ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 11.

³⁸ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 17, oni bai bod y plentyn yn gofyn am hysbysiad ADY.

³⁹ Dim ond ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o weithredu y bydd hyn yn berthnasol oherwydd yn yr ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu, bydd plant ym Mlwyddyn 6 wedi symud i'r system ADY cyn dechrau Blwyddyn 6.

- 5.55 Ni fydd plant sy'n perthyn i (b) yn symud yn awtomatig i'r system pan fyddant yn pontio o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 ac o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Felly, bydd angen i'r ysgol neu'r UCD sy'n derbyn roi hysbysiad yn ystod y drydedd flwyddyn o weithredu i symud y plant hyn o'r system AAA i'r system ADY.

Plant sy'n symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol

- 5.56 Mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant a ddisgrifir ym mharagraff 5.7 sydd mewn blwyddyn orfodol ar 1 Ionawr 2022. Hynny yw, yn y flwyddyn gyntaf o weithredu, mae'r plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, ac mae yn un o'r blynyddoedd gorfodol ar ddiwrnod cyntaf tymor y gwanwyn ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022.
- 5.57 Yn y flwyddyn gyntaf o weithredu, pan fo plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5 yn symud i flwyddyn orfodol ar ôl 1 Ionawr 2022 (gweler yr enghraifft ym mharagraff 5.58 isod), rhaid i'r ysgol neu'r UCD naill ai roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a rhiant y plentyn, yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024⁴⁰. Mae'r system ADY yn gymwys o ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r system AAA yn peidio â bod yn gymwys. Dyma'r sefyllfa oni bai bod y plentyn, neu ei riant, yn gofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU neu fod yr awdurdod lleol priodol yn rhoi hysbysiad ADY.
- 5.58 Enghraifft o blentyn yn symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol fyddai pe bai plentyn yn symud ymlaen blwyddyn o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10 neu'n symud yn ôl blwyddyn o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 7 yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu.

⁴⁰ Yn ystod yr ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu, rhaid cymryd y camau hyn pan fydd plentyn yn symud i flwyddyn orfodol ar ôl 1 Medi.

B. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad

- 5.59 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at a chan gynnwys Blwyddyn 10 sydd, ar 1 Ionawr 2022, yn cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, sydd yn: Blynyddoedd Meithrin 1 neu 2, neu Flwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 10 ac sydd:
- wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru ac sydd wedi'u cofrestru neu wedi'u hymrestru mewn lleoliad arall ac mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y plentyn; neu
 - wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru ac yn derbyn gofal yng Nghymru gan awdurdod lleol yng Nghymru.
- 5.60 Nid yw Gorchymyn Cychwyn 6 yn cynnwys plant sydd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022, er enghraifft, plant sy'n cael asesiad statudol neu blant sy'n disgwyl asesiad ar ôl gofyn am un o dan Ddeddf Addysg 1996 (gweler paragraffau 6.52 i 6.56 am ddiffiniad o achosion ar y gweill).
- 5.61 Nid yw Gorchymyn Cychwyn 6 yn cynnwys plant sydd ym Mlwyddyn 11.
- 5.62 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 hefyd yn ymdrin â'r blynyddoedd gorfodol a fydd yn pontio i'r system ADY yn ystod y flwyddyn ysgol 2022 i 2023 a 2023 i 2024. Y rhain yw:
- (ym mlwyddyn ysgol 2022 i 2023) Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, a Blwyddyn 1, Blwyddyn 5, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10
 - (ym mlwyddyn ysgol 2023 i 2024) Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ac unrhyw ddisgyblion eraill na symudodd i'r system ADY yn ystod y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn o'i gweithredu.
- 5.63 Bydd y plant a ddisgrifir ym mharagraff 5.59 uchod yn symud o'r system AAA i'r system ADY yn ystod tymhorau gwanwyn a haf blwyddyn ysgol 2021 i 2022. Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, rhaid i awdurdodau lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plant hyn a'u rhieni, ar ryw adeg yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022⁴¹.

Rhoi gwybodaeth i blant a rhieni

- 5.64 Mae'n bwysig cyfathrebu â rhieni yn ystod y cyfnod gweithredu. Yn ystod tymor yr hydref ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022, dylai ysgolion ac UCDAu anfon gwybodaeth at blant sy'n cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, a'u rhieni, sy'n:
1. esbonio'r system ADY
 2. nodi'r flwyddyn ysgol y bydd y blynyddoedd gorfodol yn symud o'r system AAA i'r system ADY

⁴¹ Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 9. Nid yw'r sefyllfa o ran rhoi hysbysiadau i blant a/neu rhieni nad oes ganddynt alluedd yn y Cod ADY yn gymwys i'r hysbysiadau a roddir o dan Orchymyn Cychwyn 6.

3. nodi'r broses ar gyfer symud o'r system AAA i'r system ADY
4. esbonio hawl y plentyn neu'r rhiant i ofyn am hysbysiad
5. darparu gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chynghor i bobl am ADY a'r system ADY⁴²

5.65 Mae [dogfen ar wahân y gall awdurdodau lleol ei hanfon at rieni](#) wedi'i chyhoeddi sy'n darparu gwybodaeth i rieni sy'n cwmpasu pwyntiau 1 i 4 uchod.

5.66 Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol anfon gwybodaeth benodol at blant sy'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sydd mewn blwyddyn orfodol yn ystod blwyddyn ysgol 2021 i 2022, a'u rhieni, sy'n:

- datgan y tymor y disgwylir i'r plentyn symud i'r system ADY – hynny yw, y tymor y mae'r awdurdod lleol priodol yn disgwyl neu'n bwriadu rhoi'r hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU a beth mae'r hysbysiadau'n ei olygu
- esbonio hawl y plentyn neu'r rhiant i ofyn am hysbysiad CDU
- nodi beth sy'n digwydd ar ôl i hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU gael ei roi
- darparu gwybodaeth am yr hyn y gall rhieni ei wneud os nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod lleol priodol a nodir yn yr hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU

5.67 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r broses ar gyfer symud plant o'r system AAA i'r system ADY.

Y broses ar gyfer symud plant o'r system AAA i'r system ADY

Penderfynu a oes gan blentyn ADY a rhoi hysbysiad

5.68 Cyn cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a oes gan blant sydd yn y blynyddoedd gorfodol, ac sy'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ADY (gweler pennod 20 o'r Cod ADY – 'Adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol').

5.69 Mae'n debygol y bydd gan blant sy'n cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 ADY.

5.70 Os yw plentyn a oedd yn cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 ac wedyn yn peidio â chael darpariaeth addysgol arbennig mwyach, mae'r plentyn yn dal i gael ei gynnwys yng Ngorchymyn Cychwyn 6 (oherwydd bod gan y plentyn AAA ar 1 Ionawr 2022). O ganlyniad, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY.

5.71 Ar ôl penderfynu a oes gan blentyn AAA ai peidio, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn a'i rieni.

5.72 Os nad yw'r awdurdod lleol wedi rhoi hysbysiad CDU, neu hysbysiad dim CDU, i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY), a'i

⁴² Mae'r Cod ADY, pennod 1, tudalen 4, yn rhoi gwybodaeth ynghylch plant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt.

riant, yn ystod tymor gwanwyn a haf y flwyddyn ysgol 2021 i 2022, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2022. Ar y pwynt hwn, mae'r ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn.

Hysbysiadau CDU

- 5.73 Rhoddir hysbysiad CDU lle mae'r awdurdod lleol priodol wedi penderfynu bod gan blentyn ADY. Mae'r hysbysiad yn golygu bod y penderfyniad yn cael ei drin fel pe bai wedi ei wneud ar ddyddiad yr hysbysiad. Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r gyfraith newydd yn gymwys ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys i'r plentyn.
- 5.74 Os bydd awdurdod lleol wedi rhoi CDUau cyn 1 Medi 2021, er enghraifft, fel rhan o gynllun peilot, nid oes gan y CDUau hynny unrhyw rym cyfreithiol. Wrth symud plentyn sydd â CDU a baratowyd cyn mis Ionawr 2022 o'r system AAA i'r system ADY, bydd angen rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (fel y bo'n briodol) i'r plentyn a'i riant.

Hysbysiadau dim CDU

- 5.75 Rhoddir hysbysiad dim CDU os nad yw'r awdurdod lleol priodol o'r farn bod gan y plentyn ADY. Rhoddir yr hysbysiad i blentyn a rhieni'r plentyn, gan gadarnhau bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu nad oes gan y plentyn ADY at ddibenion pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf ADY. Mae'r system ADY yn gymwys o ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys.
- 5.76 Os yw plentyn neu riant yn anghytuno â'r penderfyniad a wneir gan awdurdod lleol, gall apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y penderfyniad.

Hysbysiadau ADY

- 5.77 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn darparu i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff yr awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY.
- 5.78 Caiff yr awdurdod lleol priodol, o'i wirfodd ei hun ac ar unrhyw adeg, roi hysbysiad ADY i blentyn a rhieni'r plentyn.
- 5.79 Effaith yr hysbysiad ADY yw bod y system ADY yn gymwys ar ddyddiad yr hysbysiad a bod y system AAA yn peidio â bod yn gymwys ar y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, mae'r dyletswyddau y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY, yn gymwys o'r dyddiad hwnnw.
- 5.80 Diben caniatáu i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY yw galluogi awdurdod lleol i symud plentyn i'r system ADY y tu allan i'w blwyddyn orfodol.
- 5.81 Gellid defnyddio'r pŵer lle, er enghraifft, mae anghenion plentyn wedi cynyddu y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol arbennig y gellir ei darparu mewn ysgol brif ffrwd ac ni all yr awdurdod lleol gasglu bod y plentyn neu riant y plentyn wedi gofyn am hysbysiad CDU. Heb y pŵer i roi hysbysiad ADY, ni fyddai'r awdurdod lleol yn gallu

gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY a, lle bo angen, llunio CDU. Yn ogystal, nid yw'n bosibl i ysgol neu UCD ofyn i awdurdod lleol gynnal asesiad statudol neu gyhoeddi datganiad ar gyfer plentyn sy'n dod o dan Orchmynion Cychwyn 5 a 6. Felly, ni fyddai'n bosibl i'r awdurdod lleol leoli'r plentyn mewn ysgol arbennig gan fod yr hen gyfraith yn mynnu y dylai plentyn sy'n mynychu ysgol arbennig fod â datganiad.

- 5.82 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn atal plentyn rhag bod mewn achos ar y gweill. Felly, ni fyddai'r awdurdod lleol yn gallu cynnal asesiad o dan Ddeddf Addysg 1996. Mae rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol symud plentyn i'r system ADY yn golygu y byddai awdurdod lleol yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY a, lle bo angen, llunio CDU.

Llunio CDU

- 5.83 Fel y nodwyd uchod, dyddiad yr hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU yw'r dyddiad y mae'r gyfraith newydd yn gymwys ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys i'r plentyn. Gan fod gan yr awdurdod lleol hyd at 12 wythnos i roi'r CDU o ddyddiad yr hysbysiad, bydd cyfnod o amser pan na fydd darpariaeth a wneir drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy yn gymwys ac nad yw'r ddarpariaeth o dan y system ADY wedi'i chytuno eto drwy CDU. Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i ysgolion ac UCDAu gymryd camau rhesymol i gyflwyno darpariaeth i gefnogi'r plentyn⁴³ (am ganllawiau ar y ddyletswydd hon, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 98 i 100).
- 5.84 Wrth baratoi'r CDU, rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i'r plentyn er mwyn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am baratoi CDU, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 97 i 98).

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd blwyddyn orfodol

- 5.85 Os nad yw ysgol, UCD neu awdurdod lleol yn cael cyfle i ddarparu hysbysiad i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY) a'i riant, mae Gorchmynion Cychwyn 5 a 6 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl o fewn blwyddyn orfodol yn symud i'r system ADY. Bydd unrhyw blentyn nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd y flwyddyn ysgol berthnasol yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol (31 Awst). Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn.
- 5.86 Mae'r ddarpariaeth yn golygu, ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, y bydd y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn gymwys i'r plentyn a bydd rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn peidio â bod yn gymwys i'r plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

⁴³ Mae adran 47 o'r Ddeddf ADY yn gosod dyletswydd ar ysgolion i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY os oes gan blentyn ADY ond nad yw CDU yn cael ei gynnal.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU

- 5.87 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn rhoi hawl i blant sy'n dod o dan y gorchmynion cychwyn, neu eu rhieni, ofyn am i hysbysiad CDU gael ei roi ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gweithredu⁴⁴.
- 5.88 Gellir gwneud y cais naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.
- 5.89 Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod gwaith i'r cais. Fel yr uchod, os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod gan y plentyn ADY ac yn rhoi hysbysiad CDU, rhaid i'r ysgol lunio CDU o fewn 12 wythnos i ddyddiad yr hysbysiad⁴⁵, oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol.
- 5.90 Mae'r hawl i ofyn am hysbysiad CDU yn galluogi'r plant hynny sy'n anfodlon â'r ddarpariaeth addysgol arbennig a gyflwynir drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy i symud i'r system ADY yn gynharach na'r bwriad ac i elwa ar yr hawliau a ddarperir gan y Ddeddf ADY.

Osgoi achosion ar y gweill

- 5.91 O 1 Ionawr 2022, ni fydd modd rhoi achos ar y gweill ar gyfer plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 6. Hyd nes y caiff y plentyn ei symud i'r gyfraith newydd, mae'r ddeddfwriaeth AAA (Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996) yn parhau mewn grym mewn perthynas â'r plentyn a bydd darpariaeth addysgol arbennig yn parhau i gael ei darparu.
- 5.92 Ni ellir rhoi datganiad i blant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 6⁴⁶. Nod hyn yw atal rhoi achosion ar y gweill ar gyfer plant yn ystod y cyfnod gweithredu. Fodd bynnag, gall plant, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir iddynt symud i'r system ADY (gweler paragraffau 6.64 i 6.67 am wybodaeth ynghylch gofyn am hysbysiad CDU).

Newid mewn amgylchiadau

- 5.93 Bydd plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 6, nad ydynt eisoes wedi'u symud i'r system ADY, yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY pan fyddant yn peidio â:
- derbyn gofal
 - bod wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad
- 5.94 Nid yw'r ddarpariaeth newid mewn amgylchiadau yng Ngorchymyn Cychwyn 6 yn cael ei heffeithio gan bontio arferol na chau ysgolion. Hynny yw, lle'r oedd plentyn, er enghraifft, wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac, ar ddiwedd Blwyddyn 6, yn

⁴⁴ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 12, a Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 12.

⁴⁵ Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 13.

⁴⁶ Bydd plant nad ydynt yn dod o dan y gorchmynion cychwyn yn aros ar y system AAA ac felly byddant yn gallu gofyn am asesiad o dan Ddeddf Addysg 1996 neu asesiad adran 140 o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

cael ei gofrestru mewn un ysgol a gynhelir yn unig, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY⁴⁷.

- 5.95 Pan fo plentyn a gofrestrwyd mewn mwy nag un lleoliad yn cael ei gofrestru mewn un ysgol a gynhelir neu UCD yn unig, dylai'r awdurdod lleol hysbysu'r ysgol neu'r UCD bod y plentyn wedi peidio â chael ei gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac, felly, wedi symud yn awtomatig i'r gyfraith newydd a bod y dyletswyddau a osodir ar yr ysgol neu'r UCD yn y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol.

Symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol

- 5.96 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant a ddisgrifir ym mharagraff 5.59 sydd mewn blwyddyn orfodol ar 1 Ionawr 2022. Hynny yw, yn y flwyddyn gyntaf o weithredu, mae'r plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, ac mae yn un o'r blynyddoedd gorfodol ar ddiwrnod cyntaf tymor y gwanwyn ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022.
- 5.97 Yn y flwyddyn gyntaf o weithredu, pan fo plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 6 (gweler paragraff 5.59) yn symud i flwyddyn orfodol ar ôl 1 Ionawr 2022, rhaid i'r awdurdod lleol naill ai roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn a rhieni'r plentyn yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024⁴⁸. Mae'r system ADY yn gymwys o ddyddiad yr hysbysiad, ac mae'r system AAA yn peidio â bod yn gymwys. Dyma'r sefyllfa oni bai bod y plentyn neu ei rieni yn gofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU neu fod yr awdurdod lleol priodol yn rhoi hysbysiad ADY.

⁴⁷ Dim ond ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o weithredu y bydd hyn yn berthnasol oherwydd yn yr ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu, bydd plant ym Mlwyddyn 6 wedi symud i'r system ADY cyn dechrau Blwyddyn 6.

⁴⁸ Yn ystod yr ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu, rhaid cymryd y camau hyn pan fydd plentyn yn symud i flwyddyn orfodol ar ôl 1 Medi.

6. Termau a ddefnyddir

Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

- 6.1 Mae i anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yr ystyr a roddir gan adran 2 o'r Ddeddf ADY. Hynny yw:
- (1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
 - (2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd -
 - (a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu
 - (b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
 - (3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.
 - (4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.

(Gweler y Cod ADY, pennod 2, i gael rhagor o wybodaeth am y diffiniad o ADY).

Hysbysiad ADY

- 6.2 Gall yr awdurdod lleol priodol, o'i wirfodd ei hun, roi hysbysiad ADY o dan amgylchiadau eithriadol. Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi awdurdodau lleol i symud unrhyw blentyn sydd wedi'i gynnwys mewn Gorchmynion Cychwyn 5 a 6, p'un a ydyw'n parhau i fod wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir ai peidio, i'r system ADY ar unrhyw adeg.
- 6.3 Gall plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5, a'u rhieni, ofyn i'r awdurdod lleol priodol eu symud i'r system ADY yn gynharach na'r bwriad drwy ofyn am hysbysiad ADY ac, yn dilyn cais o'r fath, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY (gweler paragraffau 6.68 i 6.70 i gael gwybodaeth am ofyn am hysbysiad ADY).
- 6.4 Effaith yr hysbysiad ADY yw bod y system ADY yn gymwys ar ddyddiad yr hysbysiad a bod y system AAA yn peidio â bod yn gymwys ar y dyddiad hwnnw.

- 6.5 Mae hyn yn golygu bod y dyletswyddau yn y Ddeddf ADY a osodir ar ysgolion, UCDAu ac awdurdodau lleol i wneud penderfyniad, a lle bo angen, i baratoi CDU ar gyfer y plentyn yn gymwys.

System ADY

- 6.6 Mae'r system ADY yn cyfeirio at y trefniadau cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY. Mae'r Cod ADY yn gosod gofynion ar ysgolion, UCDAu, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a chyrff y GIG ac yn rhoi arweiniad iddynt hwy ac eraill ar y system ADY.

Darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)

- 6.7 Mae i DDdY yr ystyr a roddir gan adran 3 o'r Ddeddf ADY. Hynny yw:
- (1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran:
 - (a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru
 - (b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu
 - (c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin
 - (2) Ystyr darpariaeth ddysgu ychwanegol i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.
 - (3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.
- 6.8 Mae rhagor o wybodaeth am y diffiniad o DDdY ym mhennod 2 y Cod ADY.

Awdurdod lleol priodol

- 6.9 Cyfeirir at yr awdurdod lleol priodol wrth drafod:
- y ddyletswydd a osodir ar awdurdod lleol i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU
 - yr hawl i blant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 6, neu eu rhieni, wneud cais i'r awdurdod lleol priodol i roi hysbysiad CDU
 - y pŵer i awdurdod lleol roi hysbysiad ADY
 - yr hawl i blant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5, neu eu rhieni, wneud cais i'r awdurdod lleol priodol i roi hysbysiad ADY.
- 6.10 Yr awdurdod lleol priodol yw'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gofalu am blentyn neu, os nad yw plentyn yn derbyn gofal, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn (gweler y Cod ADY, pennod 1, tudalen 4 am ddiffiniad o blant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt).

- 6.11 Er enghraifft, mae plentyn wedi'i gofrestru mewn UCD yng Nghaerdydd ac mae'n byw y rhan fwyaf o'r amser yng Nghaerdydd. Cyngor Caerdydd yw'r awdurdod lleol cyfrifol ac felly yr awdurdod lleol priodol. Fodd bynnag, os yw'r plentyn sydd wedi'i gofrestru yn yr UCD yng Nghaerdydd yn byw y rhan fwyaf o'r amser yn Rhondda Cynon Taf, yr awdurdod lleol cyfrifol fyddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac felly byddai'r cais i'r gyfraith newydd fod yn gymwys i'r plentyn yn cael ei wneud i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel yr awdurdod lleol priodol.
- 6.12 Yng Ngorchymyn Cychwyn 5, os nad yw awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y plentyn (er enghraifft am fod y plentyn yn byw yn Lloegr ac wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru), yna'r awdurdod lleol priodol yw'r awdurdod lleol y lleolir yr ysgol a gynhelir neu'r UCD yn ei ardal.

Trosglwyddo awtomatig oherwydd newid mewn amgylchiadau

- 6.13 Mae Gorchymynion Cychwyn 5 a 6 yn rhoi darpariaeth i blant sy'n dod o dan y gorchymynion cychwyn sydd â newidiadau penodol mewn amgylchiadau – ac nad ydynt eto wedi symud i'r system ADY – symud yn awtomatig, ar ddyddiad y newid yn eu hamgylchiadau, o'r system AAA i'r system ADY⁴⁹.
- 6.14 O dan Orchymyn Cychwyn 5, mae'r trefniant yn berthnasol i blentyn sydd:
- wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Ionawr 2022 ac, ar ryw adeg ar ôl mis Ionawr 2022, daeth yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyrwr ymrestredig mewn sefydliad arall (hynny yw, wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano
 - wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Ionawr 2022 ac, ar ryw adeg ar ôl mis Ionawr 2022, daeth yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru; neu
 - yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu'r UCD lle'r oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ar 1 Ionawr 2022 - ac eithrio pan fo'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig oherwydd pontio arferol o un ysgol i'r llall (hynny yw, o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 neu o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7) neu oherwydd cau ysgol neu UCD
- 6.15 Pan fo plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu'r UCD lle'r oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ar 1 Ionawr 2022 at ddibenion pontio arferol o un ysgol neu UCD i'r llall, caiff ei eithrio rhag symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY.
- 6.16 Yn ogystal, pan fo plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu'r UCD lle'r oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ar 1 Ionawr 2022 oherwydd bod ei ysgol neu ei UCD yn cau, ni fydd y plentyn yn cael ei symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY.
- 6.17 Mae hyn yn golygu y bydd plant sy'n cael eu tynnu o gofrestr eu hysgol neu eu UCD oherwydd cyfnod pontio arferol neu oherwydd cau ysgol/UCD, a symud i ysgol a gynhelir arall neu UCD arall, yn symud i'r system ADY yn ystod eu blwyddyn orfodol.

⁴⁹ Gorchymyn Cychwyn 5, erthyglau 18 i 20, a Gorchymyn Cychwyn 6, erthyglau 18 i 20.

- 6.18 Pan fydd plentyn yn cael ei dynnu o gofrestr ei ysgol oherwydd cyfnod pontio arferol neu gau ysgol/UCD ac nad yw'n ymuno ag ysgol a gynhelir arall neu UCD arall, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY ar ddiwedd ei flwyddyn orfodol (oni wneir cais am hysbysiad ADY).
- 6.19 Er enghraifft, disgwylir i blentyn ym Mlwyddyn 6 yn 2021 i 2022 symud i'r system ADY yn 2023 i 2024 pan fydd y plentyn ym Mlwyddyn 8. Pan fydd plentyn ym Mlwyddyn 6 ym mlwyddyn ysgol 2021 i 2022 yn gadael yr ysgol gynradd a ddim yn ymuno ag ysgol uwchradd a gynhelir ar ddechrau Blwyddyn 7, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2024 (oni roddir hysbysiad ADY).
- 6.20 O dan Orchymyn Cychwyn 6, mae'r trefniant yn gymwys i blentyn sy'n peidio â bod:
- yn derbyn gofal
 - wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad
- 6.21 Nid yw'r ddarpariaeth o ran newid amgylchiadau yng Ngorchymyn Cychwyn 6 yn cael ei effeithio gan drosglwyddiadau arferol na chau ysgolion/UCDau. Hynny yw, pan oedd plentyn, er enghraifft, wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac, ar ddiwedd Blwyddyn 6, yn cael ei gofrestru mewn ysgol a gynhelir yn unig, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar y dyddiad y peidiodd y plentyn â bod wedi ei gofrestru mewn mwy nag un lleoliad.

Darpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn

- 6.22 Mae plant sy'n dod o dan Orchymynion Cychwyn 5 a 6 ac sydd mewn blwyddyn orfodol yn cael eu symud o'r system AAA i'r system ADY drwy gydol y flwyddyn ysgol berthnasol. Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, mae ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol yn rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 6.44 i 6.49).
- 6.23 Os nad yw ysgol, UCD neu awdurdod lleol yn cael cyfle i ddarparu hysbysiad i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY) a'i riant, mae Gorchymynion Cychwyn 5 a 6 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl o fewn blwyddyn orfodol yn symud i'r system ADY. Bydd unrhyw blentyn nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd y flwyddyn ysgol berthnasol yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol (31 Awst). Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yn golygu, ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, y bydd y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn gymwys i'r plentyn a bydd rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn peidio â bod yn gymwys i'r plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Osgoi achosion sydd ar y gweill

- 6.24 O 1 Ionawr 2022, ni fydd plant sy'n dod o dan Orchymynion Cychwyn 5 a 6 yn gallu mynd i achos ar y gweill (gweler paragraffau 6.52 i 6.56 am ddiffiniad o achosion ar y gweill). Er bod y ddeddfwriaeth AAA yn parhau mewn grym, a bod rhaid parhau i ddarparu darpariaeth addysgol arbennig hyd nes y bydd plentyn yn symud i'r system ADY, mae darpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n parhau mewn grym yn gyfyngedig.

- 6.25 Mae hyn yn golygu na ellir rhoi datganiad o AAA anghenion addysgol i blant sy'n dod o dan Orchmynion Cychwyn 5 a 6, ac ni allant ofyn am asesiad AAA.
- 6.26 Fodd bynnag, gall plant, neu eu rhieni, ofyn am roi hysbysiad (gweler paragraffau 6.64 i 6.67 i gael gwybodaeth am ofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 6.68 i 6.70 i gael gwybodaeth am ofyn am hysbysiad ADY).

Plant sy'n dod o dan orchymyn

- 6.27 Mae plant sy'n dod o dan orchymyn yn cyfeirio at y grwpiau o blant sydd wedi'u cynnwys mewn gorchymyn cychwyn penodol ac a fydd yn symud o'r system AAA i'r system ADY mewn 1 o'r 3 blynedd weithredu (mae'r canllaw hwn yn ymdrin â'r trefniadau ar gyfer y flwyddyn weithredu gyntaf). Mae'r plant sy'n dod o dan y gorchymynion cychwyn unigol fel a ganlyn.

Gorchymyn Cychwyn 2

Mae Gorchymyn Cychwyn 2 yn cynnwys:

- plant hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10 sydd o 1 Medi 2021, newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY (gweler paragraffau 6.42 i 6.43 am ddiffiniad o newydd eu fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY); neu
- blant o oedran ysgol gorfodol sy'n cael eu cadw'n gaeth ar neu ar ôl 1 Medi 2021 (gweler paragraff 6.33 am ddiffiniad o gadw'n gaeth)

Gorchymyn Cychwyn 7

Mae Gorchymyn Cychwyn 7 yn cynnwys plant hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10 a oedd, ar 1 Medi 2021, â AAA wedi'u nodi neu a oedd mewn achos ar y gweill ac nad oeddent, ar 1 Ionawr 2022, ag AAA wedi'u nodi mwyach neu nad oeddent mewn achos ar y gweill mwyach. Mae'r gorchymyn cychwyn hwn yn trin y plant hyn fel rhai sydd newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY (gweler paragraffau 6.42 i 6.43 am ddiffiniad o newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY).

Gorchymyn Cychwyn 5

Mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn cynnwys plant hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10 sydd, ar 1 Ionawr 2022, yn cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru (ond nid plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol).

Gorchymyn Cychwyn 6

Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn cynnwys plant hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10 sydd, ar 1 Ionawr 2022, yn cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac sydd:

- yn byw yng Nghymru, ac wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad lle mae un o'r lleoliadau hynny yn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru; neu
- wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru ac yn derbyn gofal yng Nghymru gan awdurdod lleol yng Nghymru.

6.28 Trafodir plant nad ydynt yn dod o dan y gorchmynion cychwyn ac, o ganlyniad, na fyddant yn symud i'r system ADY yn y flwyddyn gyntaf o'i gweithredu, ym mhennod 3 o'r canllaw hwn.

Penderfynu a oes gan blentyn ADY

6.29 Yn gyffredinol, pan gaiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol, ysgol, neu UCD, neu os yw'n ymddangos iddo fel arall, y gall fod gan blentyn ADY, rhaid i'r awdurdod lleol, yr ysgol neu'r UCD benderfynu a oes gan y plentyn ADY⁵⁰. Os yw'r awdurdod lleol, yr ysgol neu'r UCD yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, yna fel arfer bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol, yr ysgol neu'r UCD lunio a chynnal CDU ar gyfer y plentyn⁵¹.

6.30 Yn gyffredinol, ysgolion ac UCDAu fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes gan blentyn ADY ac am lunio CDU ond mae nifer o amgylchiadau wedi'u nodi yn y Ddeddf ADY lle mae'r cyfrifoldeb i benderfynu yn disgyn ar yr awdurdod lleol. Mae'r rhain yn cynnwys plentyn:

- nad yw wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD
- sydd wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad
- sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru
- sy'n cael ei gadw'n gaeth

6.31 Pan fo plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr a'i fod wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru, yr ysgol neu'r UCD fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes gan blentyn ADY, ac eithrio pan fo awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun addysg, iechyd a gofal ar gyfer y plentyn⁵².

6.32 Mae rhagor o wybodaeth am benderfynu a oes gan blentyn ADY ac am lunio a chynnal CDUau yn y Cod ADY.

Plant a gedwir yn gaeth

6.33 Mae i gyfeiriad at blant a gedwir yn gaeth yn y canllaw hwn yr ystyr a roddir iddo gan adran 39 o'r Ddeddf ADY. Hynny yw, plant sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw, ac yn cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuencid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr (gweler pennod 19 o'r Cod ADY).

⁵⁰ Deddf ADY, adrannau 11, 13, 18 a 40. Mae'r diffiniad o ADY yn adran 2 o Ddeddf ADY a diffiniad o DDdY yn adran 3.

⁵¹ Deddf ADY, adrannau 12, 14, 19 a 40.

⁵² Deddf ADY, adran 11(3)(e).

Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)

- 6.34 Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol⁵³ i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas i blant o oedran ysgol gorfodol na fyddent efallai, am ba reswm bynnag, yn derbyn addysg addas pe na bai trefniadau o'r fath ar waith. Mae ganddynt bŵer⁵⁴ i wneud yr un peth ar gyfer pobl ifanc hefyd.
- 6.35 Cyfeirir at y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel AHY. Gall y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gynnwys UC Dau, ysgolion mewn ysbytai, sefydliadau addysg bellach, ac addysg unigol yn y cartref (mae hyn yn wahanol i addysg ddewisol yn y cartref). Mae disgyblion addysg heblaw yn yr ysgol yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd, er enghraifft, yn sâl neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol (mae gwybodaeth am addysg heblaw yn yr ysgol ym mhennod 18 o'r Cod ADY).

Amgylchiadau eithriadol

- 6.36 Cyfeirir at ddyletswyddau a roddir ar awdurdodau lleol, ysgolion ac UC Dau i roi copi o CDU o fewn amserlen benodol oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol. Mae amgylchiadau eithriadol yn cyfeirio at achosion lle mae'n amhosibl i'r corff cyfrifol gydymffurfio o fewn y cyfnod penodedig oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y corff cyfrifol.
- 6.37 Yn ystod y cyfnod gweithredu, enghraifft debygol o amgylchiadau eithriadol fyddai pe bai nifer sylweddol o blant, neu eu rhieni, yn gwneud cais i'r ysgol, yr UC neu'r awdurdod lleol priodol gyhoeddi hysbysiad CDU. Pe bai nifer y ceisiadau dan sylw yn golygu ei bod yn amhosibl llunio a rhoi CDU o fewn yr amserlen ofynnol, byddai achos o'r fath yn debygol iawn o fod yn cael ei ystyried yn amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, os oes amgylchiadau eithriadol, rhaid rhoi'r CDU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Os yw'n amlwg bod amgylchiadau eithriadol a fydd yn atal, neu'n debygol o atal, y CDU rhag cael ei roi o fewn yr amserlen ofynnol, dylid esbonio hyn yn ysgrifenedig i'r plentyn a rhieni'r plentyn cyn gynted â phosibl.
- 6.38 Mae amgylchiadau eithriadol hefyd yn gymwys mewn perthynas â'r pŵer, y darperir ar ei gyfer yng Ngorchmynion Cychwyn 5 a 6, a roddir i awdurdod lleol i roi hysbysiad ADY i symud plentyn o'r system AAA i'r system ADY.
- 6.39 Rhoddwyd y pŵer i awdurdodau lleol ei ddefnyddio o dan amgylchiadau eithriadol. Gallai sefyllfa o'r fath godi lle mae anghenion plentyn wedi cynyddu y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol arbennig y gellir ei chyflwyno mewn ysgol brif ffrwd. Heb y pŵer i roi hysbysiad ADY, ni fyddai'r awdurdod lleol yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY a, lle bo angen, llunio CDU. Yn ogystal, nid yw'n bosibl i ysgol ofyn i awdurdod lleol gynnal asesiad statudol neu gyhoeddi datganiad ar gyfer plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5 neu 6. Felly, ni fyddai'n bosibl i'r awdurdod lleol leoli'r plentyn mewn ysgol arbennig gan fod yr hen gyfraith yn mynnu y dylai plentyn sy'n mynychu ysgol arbennig fod â datganiad.

⁵³ Adran 19 o Ddeddf Addysg 1996.

⁵⁴ Adran 19(4) o Ddeddf Addysg 1996.

Plant sy'n derbyn gofal

- 6.40 Mae i gyfeiriad at blant sy'n derbyn gofal yn y canllaw hwn yr un ystyr â phlentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn adran 15 o'r Ddeddf ADY (gweler paragraffau 1.27 i 1.30 o'r Cod ADY).

Blynyddoedd gorfodol

- 6.41 Cyfeiria blynyddoedd gorfodol at y grwpiau o blant sy'n perthyn i grwpiau blwyddyn penodol a fydd yn symud o'r system AAA i'r system ADY ym mhob un o'r 3 blynedd weithredu. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu (blwyddyn ysgol 2021 i 2022), y blynyddoedd gorfodol yw: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, a Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10.

Newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY

- 6.42 Mae plant sydd newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY o 1 Medi 2021 yn golygu plant nad oeddent yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r system AAA ar 1 Medi 2021. Hynny yw, plant nad oes ganddynt ddatganiad AAA, darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac nad ydynt ychwaith yn ymwneud ag achos ar y gweill (gweler paragraffau 6.52 i 6.56 am ddiffiniad o achosion ar y gweill).
- 6.43 Bydd y system ADY yn berthnasol i blant sydd newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY o 1 Medi 2021, ni waeth sut y caiff eu haddysg ei darparu.

Hysbysu'r rhiant/gofalwr y bydd plentyn yn symud i'r system ADY

- 6.44 Mae Gorchymynion Cychwyn 5 a 6 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol priodol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i blant a ddisgrifir ym mharagraffau 1.10 a 1.15. Gellir rhoi'r hysbysiad ar unrhyw adeg yn y flwyddyn ysgol berthnasol bod y plentyn yn symud i'r system ADY.
- 6.45 Mae hysbysiad CDU yn golygu y bernir bod gan y plentyn ADY at ddibenion pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf ADY ar ddyddiad yr hysbysiad ac y bydd CDU yn cael ei lunio ar gyfer y plentyn⁵⁵. Rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi copi o'r CDU i'r plentyn a'i riant o fewn 35 diwrnod ysgol i ddyddiad yr hysbysiad a rhaid i awdurdodau lleol roi copi o'r CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn o fewn 12 wythnos i ddyddiad yr hysbysiad, oni bai bod eithriadau'n gymwys neu os oes amgylchiadau eithriadol (gweler paragraffau 6.36 i 6.37 am ddiffiniad o amgylchiadau eithriadol).
- 6.46 Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn gymwys o'r dyddiad hwnnw.

⁵⁵ Ac eithrio pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol sicrhau cynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn dilyn cais o dan adran 12(2)(c) o'r Ddeddf, Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 5.

- 6.47 Mae hysbysiad dim CDU yn golygu y bernir nad oes gan y plentyn ADY at ddibenion pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf ADY ar ddyddiad yr hysbysiad⁵⁶. Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn gymwys o'r dyddiad hwnnw. Mae hyn yn golygu bod gan blant, a'u rhieni, hawliau i herio penderfyniadau a wneir gan ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol.
- 6.48 Pan fo plentyn, neu ei riant, yn anghytuno â'r penderfyniad a wnaed gan ysgol, gall ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad⁵⁷
- 6.49 Pan fo plentyn, neu ei riant, yn anghytuno â'r penderfyniad a wneir gan awdurdod lleol, gall apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y penderfyniad.

Dosbarth meithrin – Meithrin Blynyddoedd 1 a 2

- 6.50 Mae'r gorchmynion cychwyn yn gwneud darpariaeth i blant mewn dosbarth meithrin mewn ysgol a gynhelir symud i'r system ADY. Mae'r dosbarth meithrin yn golygu'r dosbarthiadau mewn ysgol a gynhelir sy'n darparu addysg feithrin cyfnod sylfaen⁵⁸ i blant sydd wedi troi'n 3 ond sydd o dan oedran ysgol gorfodol. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn trefnu dosbarthiadau meithrin i 2 flynedd ac, felly, cyfeirir yn y canllaw hwn at Flynyddoedd Meithrin 1 a 2 wrth gyfeirio at ddosbarthiadau meithrin.

Rhiant

- 6.51 Mae i rhiant yr ystyr a roddir i "parent" yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r diffiniad hwnnw yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ac unrhyw berson sydd â dyletswydd gofal dros y plentyn⁵⁹.

Achosion ar y gweill

- 6.52 Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at achosion ar y gweill. Nid yw plant sydd ag achos ar y gweill wedi'u cynnwys yn y gorchmynion cychwyn ac, felly, ni fyddant yn symud o'r system AAA i'r system ADY yn y flwyddyn gyntaf o weithredu.
- 6.53 Mae achos ar y gweill yn cyfeirio at achosion lle mae plentyn neu berson ifanc naill ai'n ymwneud â phroses sy'n gysylltiedig â'r system datganiad AAA y darperir ar ei chyfer yn Neddf Addysg 1996 neu gyda phroses sy'n ymwneud â chynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal y darperir ar ei chyfer yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014.
- 6.54 Er bod nifer fawr o achosion ar y gweill amrywiol, gellir eu categorio'n 2 fath: y rhai cyn-datganiad a'r rhai datganiad. Achos ar y gweill cyn-datganiad yw pan nad oes gan blentyn neu berson ifanc ddatganiad ond ei fod yn ceisio cael datganiad. Gallai'r broses hon ddod i ben gyda rhoi datganiad neu drwy beidio â rhoi datganiad o gwbl. Datganiad ar y gweill yw pan fo datganiad eisoes wedi'i roi ond bod apêl ar

⁵⁶ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 8, a Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 8.

⁵⁷ Deddf ADY, adran 26.

⁵⁸ Gweler '[Addysg feithrin ar gyfer plant 3 a 4 oed yng Nghymru – Meithrin y Cyfnod Sylfaen: Canllawiau i rieni a gofalwyr](#)'.

⁵⁹ [Mae Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 12/2007](#) yn cynnwys canllawiau i ysgolion ar ystyr rhieni a chyfrifoldeb rhieni at ddibenion Deddf Addysg 1996.

waith mewn perthynas â'i gynnwys neu pan fo'r awdurdod lleol yn ceisio rhoi'r gorau i gynnal y datganiad.

- 6.55 Felly, yn y flwyddyn gyntaf o weithredu, ni fydd plant ar weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy sy'n rhan o broses sy'n ymwneud â phroses y datganiad AAA ar 1 Medi 2021, ac sy'n dal i fod yn rhan o'r achos ar y gweill hwnnw ar 1 Ionawr 2022, yn symud i'r system ADY tan yr ail neu'r drydedd flwyddyn (yn dibynnu ar pryd y penderfynir yn llawn ar yr achos ar y gweill ac ar y flwyddyn orfodol sy'n berthnasol iddynt).
- 6.56 Ni all plant sy'n dod o dan y gorchmynion cychwyn fod yn rhan o achos ar y gweill ac, o ganlyniad, ni roddir unrhyw ddatganiadau newydd i blant sy'n dod o dan y gorchmynion cychwyn (gweler osgoi achosion ar y gweill ym mharagraff 6.24 uchod).

Llunio CDU

- 6.57 O dan y Ddeddf ADY, os yw awdurdod lleol, ysgol neu UCD wedi penderfynu bod gan blentyn ADY, rhaid llunio CDU ar gyfer y plentyn⁶⁰.
- 6.58 Yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd llunio CDU fel arfer yn digwydd yng nghydestun symud plentyn o'r system AAA, a'i gynlluniau presennol a'i ddarpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, i'r system ADY.
- 6.59 Mae rhagor o wybodaeth am benderfynu a oes gan blentyn ADY ac am lunio a chynnal CDUau yn y Cod ADY.

Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

- 6.60 Er mwyn bod yn gryno, defnyddir y term UCD yn y canllaw hwn wrth ddisgrifio dyletswydd a osodir ar bwyllgor rheoli UCD o dan y Ddeddf ADY, y Cod ADY neu reoliadau o dan y Ddeddf ADY. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r system yn gweithio'n ymarferol, gan mai staff sy'n gweithredu ar ran y pwyllgor rheoli sy'n cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor rheoli gan amlaf.

Ystyried darpariaeth flaenorol

- 6.61 Wrth lunio CDU, rhaid i'r ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol roi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i'r plentyn er mwyn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am lunio CDU, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 97 i 98).

Wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad (cofrestriad deuil)

- 6.62 Pan ddisgrifir plentyn fel un sydd wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, mae'n golygu bod y plentyn wedi'i gofrestru fel disgybl neu wedi ymrestru'n fyfyrwr mewn

⁶⁰ Ac eithrio bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn neu pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad Addysg, Iechyd a Gofal yn dilyn cais o dan adran 12(2)(c) neu adran 87(3)(d)(i) o'r Ddeddf ADY.

mwy nag un lleoliad, gydag un ohonynt yn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru a hefyd bod y plentyn i gael addysg neu hyfforddiant ym mhob un o'r lleoliadau lle mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyrwr ymrestredig⁶¹.

Awdurdod lleol cyfrifol

- 6.63 Mae'r Cod ADY, pennod 1, tudalen 4 yn rhoi diffiniad o blant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt.

Hawl i blentyn neu ei riant ofyn am hysbysiad CDU

- 6.64 Mae Gorchymyn Cychwyn 5 a 6 yn rhoi hawl i blant sy'n dod o dan y gorchymynion cychwyn, neu eu rhieni, ofyn am i hysbysiad CDU gael ei roi ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gweithredu⁶².
- 6.65 Yn ogystal, mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn rhoi hawl i blant sy'n dod o dan y gorchymyn, neu eu rhieni, ofyn am i hysbysiad ADY gael ei roi ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gweithredu.
- 6.66 Pan ofynnir am hysbysiad CDU, rhaid i'r ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol priodol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod ysgol neu 15 diwrnod gwaith (fel y bo'n briodol) o'r cais (gweler paragraffau 6.44 i 6.47 am wybodaeth am hysbysiaid). Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn gymwys o'r dyddiad hwnnw ac mae gan yr ysgol neu'r UCD 35 diwrnod ysgol i lunio CDU ar gyfer y plentyn lle rhoddir hysbysiad CDU⁶³. Mae gan awdurdodau lleol 12 wythnos i baratoi CDU ar gyfer y plentyn lle rhoddir hysbysiad CDU⁶⁴.
- 6.67 Pan fo plentyn yn gofyn am hysbysiad ADY, mae gan yr awdurdod lleol priodol 10 diwrnod gwaith i roi'r hysbysiad (gweler paragraffau 6.68 i 6.70 i gael gwybodaeth am yr hawl i blentyn neu ei riant ofyn am hysbysiad ADY).

Hawl i blentyn neu ei riant ofyn am hysbysiad ADY

- 6.68 Gall plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5 nad ydynt bellach wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD (ac na allant, felly, ofyn i'w hysgol neu eu UCD roi hysbysiad CDU), neu eu rhiant, ofyn i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY.
- 6.69 Rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi'r hysbysiad o fewn 10 diwrnod gwaith. Mae'r amserlen ar gyfer rhoi hysbysiad ADY yn fyrrach na'r amserlen i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU. Y rheswm am hyn yw nad yw rhoi hysbysiad ADY yn golygu gwneud penderfyniad.

⁶¹ Deddf ADY, adrannau 30(1) a (3).

⁶² Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 12, a Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 12.

⁶³ Nid yw amserlenni'r Cod sy'n ymwneud â chorff llywodraethu'n llunio CDU yn berthnasol pan gaiff CDU ei lunio ar ôl rhoi hysbysiad CDU. Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 13.

⁶⁴ Nid yw amserlenni'r Cod sy'n ymwneud ag awdurdod lleol yn llunio CDU yn berthnasol pan gaiff CDU ei lunio ar ôl rhoi hysbysiad CDU. Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 13.

- 6.70 Mae'r ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn gymwys i'r plentyn ar ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys ar y dyddiad hwnnw.

Ysgolion

- 6.71 Mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn defnyddio'r diffiniad o ysgol a gynhelir a ddarperir yn adran 99(1) o'r Ddeddf ADY. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys UCDAu.
- 6.72 Rhoddir dyletswyddau yn y Ddeddf ADY sy'n ymwneud ag ysgolion ar gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a rhoddir y rhai sy'n ymwneud ag UCDAu ar bwyllgor rheoli UCD.
- 6.73 Er mwyn bod yn gryno, wrth ddisgrifio dyletswydd a osodir ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ar bwyllgor rheoli UCD (neu y gellir ei roi ar y naill neu'r llall mewn is-ddeddfwriaeth), defnyddir yr ysgol neu'r UCD, yn hytrach na chyfeirio at y corff llywodraethu neu'r pwyllgor rheoli bob tro. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r system yn gweithio'n ymarferol lle mae swyddogaethau cyrrff llywodraethu a phwyllgorau rheoli gan amlaf yn cael eu cyflawni gan aelodau staff sy'n gweithredu ar eu rhan.

Sicrhau DDdY

- 6.74 Rhaid i'r ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal CDU sicrhau'r DDdY a ddisgrifir yn y CDU a, lle bo CDU yn nodi y dylid darparu DDdY yn Gymraeg, rhaid i'r ysgol neu'r ALI gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth honno yn Gymraeg⁶⁵.
- 6.75 Mae rhagor o wybodaeth am benderfynu a oes gan blentyn ADY ac am lunio a chynnal CDUau yn y Cod ADY.

System anghenion addysgol arbennig (AAA)

- 6.76 Mae'r system AAA yn cyfeirio at y trefniadau cyfreithiol a nodir yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 ac is-ddeddfwriaeth, a '[Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru](#)'.

Darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy

- 6.77 Yn y canllaw hwn drwyddo draw, cyfeirir at blant sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy. Defnyddir gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy i ddynodi unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i blentyn nad yw'n cael ei ddarparu drwy ddatganiad AAA.

⁶⁵ Yr eithriad i hyn yw pan fo'r CDU yn pennu bod y DDdY i'w sicrhau gan gorff GIG, ac os felly dyletswydd y corff GIG yw sicrhau'r DDdY honno, ac os nodir y dylid darparu'r DDdY yn Gymraeg, rhaid i'r corff GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth honno yn Gymraeg (Deddf ADY, adrannau 20 a 21).

6.78 Mae'r canllaw hwn yn cwmpasu plant o'u geni hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10, ac felly mae'r cyfeiriad at weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy yn cynnwys darpariaeth addysgol arbennig a gyflwynir i blant ifanc drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy, yn ogystal ag unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i blant ifanc nad yw'n cael ei ddarparu drwy ddatganiad.